**Y Pwyllgor Deisebau**
—
**Petitions Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Buffy Williams AS,
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Delyth Jewell AS,
Cadeirydd,
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

29 Ebrill 2025

Annwyl Buffy,

Deisebau ynghylch cyllid ar gyfer Addysg Uwch a chynaliadwyedd y sector

Cyfarfu'r Pwyllgor Deisebau ar 28 Ebrill a chytunodd i ddwyn eich sylw at bum deiseb sy'n mynegi cryfder teimladau'r cyhoedd ynghylch y camau y mae Prifysgolion Cymru yn eu cymryd mewn ymateb i'r pwysau ariannol y maent yn ei wynebu. Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn helpu i lywio eich trafodion wrth i chi graffu ar waith Medr a'r sector Addysg Uwch yng Nghymru. Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, gan bod un o'r deisebau yn ymwneud ag addysg cerddoriaeth, sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwnnw.

P-06-1507 Rydym yn galw ar Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Llywodraeth Cymru i greu cynllun hyfyw a chynaliadwy ar gyfer dyfodol hirdymor campws Llambed

Trafodwyd y ddeiseb hon ar 10 Mawrth, a chytunodd y Pwyllgor y dylid ei chau - ysgrifennais atoch ar 24 Mawrth i dynnu'ch sylw ati.

P-06-1509 Ariannu addysg cerddoriaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yng "ngwlad y gân"

Mae'r ddeiseb hon yn trafod cau adran gerdd Prifysgol Caerdydd. Wedi'i chyflwyno gan Eluned Parrott, roedd y ddeiseb hon wedi casglu 1,290 o lofnodion erbyn 31 Mawrth, a chafodd ei thrafod gan y Pwyllgor Deisebau ar 28 Ebrill 2025.

Mae'r tair deiseb a ganlyn yn dal i fod ar agor ar hyn o bryd, a disgwylir iddynt gael eu trafod gan y Pwyllgor yn y dyfodol, o gofio eu bod bellach wedi denu dros 250 o lofnodion yr un:

Gwrthdroi'r Penderfyniad i Gau Cyrsiau Cwnsela a Seicotherapi Ôl-raddedig ym Mhrifysgol De Cymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Kelsey Young. Mae'r ddeiseb wedi denu 583 o lofnodion hyd yma, a bydd ar gael i'w llofnodi tan 30 Ebrill 2025.

Galluogi Prifysgol Caerdydd i gadw'r cwrs gradd Nyrsio

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Cerys Flavey. Mae'r ddeiseb wedi denu 7,557 o lofnodion hyd yma, a disgwylir iddi fod ar gael i'w llofnodi tan 29 Gorffennaf 2025.

Helpu Prifysgol Caerdydd i gadw ei chyrsiau gradd Ieithoedd Modern

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Christine Margrave. Mae'r ddeiseb wedi denu 2,513 o lofnodion hyd yma, a disgwylir iddi fod ar gael i'w llofnodi tan 2 Awst 2025.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon unrhyw ymateb drwy e-bost i'r tîm clercio yn deisebau@senedd.cymru.

Yn gywir,

Carolyn

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.